# Adroddiad Cyfarfod
# 12:04:23
# Meinir Owen

Gwybodaeth o Aberystwyth /  Rhanbarth

1. Atgoffwyd yr aelodau  am y  Bowlio 10 Rhanbarth  Arfon -Nos Wener, Ebrill 28ain am 6. 30 yng Nghanolfan Glasfryn, Y Ffôr – Pryd y bydd  Mary Evans, Valmai, Mair Price a JenRoberts yn ein cynrychioli. Gwenan i  anfon yr enwau at Freda

2. Gwyl y Pum Rhanbarth - Derbyniwyd 6 enw i fynd i'r ŵyl ddydd Sadwrn Mai 13eg   - Gwenan i anfon gwybdoaeth ymlaen i'r trefnwyr

3. Cadarnhawyd Penodiadau Is – Swyddogion  Cenedlaethol

   Bethan Picton  Davies -  Is -Lywydd

   Mair Jones – Is -Ysgrifennydd

   Meira Evans – Is – Drysorydd

   Jaci Gruffudd – Is Drysorydd

   Gwenan i  anfon  y ffurflen ymlaen i'r Ganolfan yn Aberystwyth

4. Ffurflenni Cymorth  Rhodd  - Gofynwyd yn garedig iawn i bawb sy'n medru eu llenwi wneud hynny

5. Gŵyl yr Haf  - Dydd Sadwrn 20fed Mai

Ysgol Bro  Hyddgen a lleoliadau eraill ym Machynlleth ( dau docyn pleidleiso ar gael)

6. Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd

Y mae dal llefydd gwag lle mae angen gwirfoddolwyr i helpu yn y babell  i wneud te.

| | **8.45 – 12.00**<br><br>**(10.45 – 12.00 Dydd Sul)** | **12.00 – 3.00** | **3.00 – 6.00** |
|---|---|---|---|
| **Dydd Sadwrn**<br>**Dwyfor** | | Llannor ac Efailnewydd | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dydd Sul**<br>**Arfon** | Cath Parri, Caernarfon | | Penygroes |
| **Dydd Llun**<br>**Dwyfor** | | Morfa Nefyn<br><br>Gwyneth Griffiths,Chwilog | Mynytho |
| **Dydd Mawrth**<br>**Arfon** | Cath Parri, Caernarfon | Waunfawr | Y Groeslon |
| **Dydd Mercher**<br>**Dwyfor** | Nefyn | Cangen Golan | Gwyneth Griffiths, Chwilog |
| **Dydd Iau**<br>**Arfon** | Llanrug (3)<br><br>Cath Parri, Caernarfon | CG Caernarfon | |
| **Dydd Gwener**<br>**Dwyfor** | Porthmadog | Gwyneth Griffiths, Chwilog | Llaniestyn |
| **Dydd Sadwrn**<br>**Arfon a Dwyfor** | | | |

Y CYFLWYNIAD - Bydd hwn yn y Babell Lên.

Bydd cyfarfod agored i BAWB sydd a diddordeb mewn bod yn rhan o'r cyflwyniad yng Nghapel y Porth, Porthmadog, Nos Iau, Ebrill 27ain am 7 30 o'r gloch.

COR HWYLIOG.

Bydd y Côr Hwyliog yn canu ar Lwyfan y Maes am 12 o'r gloch, dydd Mercher yr Eisteddfod, dan arweiniad Nia Elain, CG Genod y Llan. Mae holiadur wedi mynd i'r canghennau yn gofyn am awgrymiadau am ganeuon ysgafn a hwyliog. Bydd ymarferion o ddechrau Mehefin ymlaen.

7. Archebu Nwyddau ( Cardiau Nadolig)

Y mae cyfle i archebu cardiau nadolig a nwyddau eraill – y ffurflen gan Gwenan

8. Penodi Swyddogion 2023 - 2024

Diolch i'r isod am dderbyn eu swyddogaethau ar gyfer y tymor sydd i ddod – fe fydd angen penodi dau aelod arall i'r pwyllgor ar gyfer y tymor.

| Swyddogion Merched y Wawr – 2023- 2024 | |
|---|---|
| Llywydd | Jennifer Roberts |
| Is- Lywydd | Lis Watkin |
| Ysgrifennydd | Meira Evans |
| Is-ysgrifennydd | |
| Trysorydd | Mair Williams |
| Is- Drysorydd | |
| Aelod o'r Pwyllgor | Edna Lamona |
| Aelod o'r Pwyllgor | Mair Read |
| Aelod o'r Pwyllgor | Gwenan Roberts |
| Aelod o'r Pwyllgor | Eirlys Williams |

9. Cyfarfod Mis Mai - Taith Gerdded Hanesyddol o Amgylch y Pentref yng Ngwmni Gareth Roberts ( Menter Fachwen) - A cinio yn Perthyn i ddilyn

Fe fydd angen syniad o faint fydd yn dod ar gyfer y cinio – ac os yn bosib dewis o fwyd

10. Cyfarfod Mis Mehefin. Fe fydd gwahoddiad agored i deuluoedd a chyfeillion ynghyd a rhai nad ydynt yn aelodau i ymuno â ni ar daith ar Y Fenai Nos Fercher y 14eg Mehefinar y 'Queen of the Sea'. Gwenan i rannu manylion a hysbysebu y daith

11. Cyfraniad i Eco'r Wyddfa

Cyfraniad MyW Bethel i'r Eco – Mis Ebrill

Daeth nifer ohonom ar noson ddigon oer i wrando ar Meinir Owen yn sôn am yr hanes a gafodd gan ei nain am y llong ddrylliad erchyll y Royal Charter ar y creigiau ger Moelfre ym Mis Hydref 1859. Bu i'r "clipper stem" a oedd ar daith o Awstralia i Lerpwl gael ei dryllio pan ddaethant i ganol corwynt cryf a hwythau bron iawn a cyrraedd pen eu taith hir.

Roedd y llong yn cario teithwyr a oedd wedi gwneud eu ffortiwn drwy'r 'Gold Rush' yn Awstralia – nifer wedi gwnio sofreni aur i'w gwisgoedd. Wrth weld y dinistr galwyd ar ddynion Meolfre i helpu a daeth 28 o ddynion dewr i geisio achub y teithwyr gan ymladd tonnau o hyd at 40 troedfedd, a Meinir yn perthyn i dri ohonynt, dau yn hen, hen deidiau iddi. Does neb yn siwr iawn faint yn union a gafodd eu hachub ond tybir ei fod rhwng 19 a 40, ond fe gollwyd llawer mwy, o bosib fod yna i fyny at 600 ar y fordaith, ond nid oedd rhestr o'r teithwyr.

Dywedir i Foelfre newid ar ôl y noson honno, nifer wedi ysbeilio yr aur a gafwyd ar hyd y glannau, ac 'Phres y Royal Charter' yn eglurhâd pam fod nifer yn yr ardal wedi dod yn gyfoethog dros nos ! 'Roedd papurau Llundain yn haerllug iawn wrth ddweud mai y 28 dyn dewr oedd wedi ysbeilio a chamdrin y cyrff, ond mewn llys fe dystiodd un a gafodd ei achub, nad felly oedd pethau. Roedd nain Meinir yn ddirmygus iawn o "Bres y Royal Charter", ond y mae gan Meinir lwy arian a gafwyd mewn cawell cimychiaid yn drysor teuluol ac yn atgof o'r tri perthynas dewr a fentrodd eu bywydau i helpu.

Diolchwyd i Meinir gan Gwyneth Jones ar ran y gangen. a hi hefyd a enillodd y raffl. Diolch i Mair Williams, Meira Evans a Edna Lamona am wneud y baned.

Bydd ein cyfarfod nesa yn digwydd fore Iau 11eg Mai, pryd y byddwn yn mynd ar daith hanesyddol o amgylch y Pentref yng Ngwmni Gareth Roberts a chinio yn Pethyn.

Y mae hefyd wahoddiad agored i deuluoedd a chyfeillion a rhai nad ydynt yn aelodau, ymuno efo ni am drip Pentymor ar daith ar y Fenai ar "Queen of the Sea" - Nos Fercher 14eg Mehefin am 6:30 pm. Pris y tocyn fydd £15. Gwyliwch allan am bosteri o amgylch y pentre.